| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | CYNGOR SIR |
| **DYDDIAD** | 26 MEDI 2013 |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | CREU PWYLLGORAU SEFYDLOG |
| **ADRODDIAD GAN** | PRIF WEITHREDWR |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | HWYLUSO GOFYNION STATUDOL/CONTRACTYDDOL |

## CEFNDIR

1. Weithiau, mae pryderon ynghylch ymddygiad/perfformiad swyddogion statudol yn golygu y bydd angen ymchwilio ymhellach iddynt er mwyn cydymffurfio gyda'r gweithdrefnau statudol yn Rheoliadau Rheolau Sefydlog Awdurdodau Lleol (Cymru) 2006. Mae'r rhannau perthnasol o'r Rheoliadau'n rhan o delerau ac amodau cyflogaeth y swyddogion statudol ac fe'u hamlinellir yn y Cyfansoddiad ym mharagraff 4.10.

2. Yn unol â'r Rheoliadau, lle'r ymddengys y gall honiad a wnaed yn erbyn swyddog statudol arwain at gamau disgyblu, rhaid i'r Cyngor benodi Pwyllgor Ymchwilio. Yn dilyn unrhyw ymchwiliad, ac yn amodol ar gasgliadau'r ymchwiliad hwnnw, efallai y bydd angen Pwyllgor Disgyblu wedyn.

3. Mae'r Cyfansoddiad yn ddiffinio swyddogaeth a chyfrifoldebau'r Cyngor llawn a'i bwyllborau. Dim ond y Cyngor llawn sydd â'r awdurdod i greu Pwyllgor Ymchwilio a Phwyllgor Disgyblu.

4. Oherwydd nad yw'r Cyfansoddiad yn cynnwys Pwyllgor Ymchwilio sefydlog na Phwyllgor Disgyblu sefydlog, rhaid i'r Cyngor sefydlu'r ddau er mwyn rhoi sylw i' unrhyw faterion perthnasol fel a phryd y maent yn codi. I osgoi'r angen i sefydlu Pwyllgorau ad-hoc o'r fath, mae'r argymhellion isod yn cynnwys newidiadau i'r Cyfansoddiad i sefydlu dau Bwyllgor sefydlog.

5. Caiff swyddogaethau'r Cyngor llawn eu nodi ym mharagraff 3.2.3 a pharagraff 3.2.3.5 o'r Cyfansoddiad a chyfeirir at: "cytuno a/diwygio cylch gorchwyl Pwyllgorau, penderfynu ar eu cyfansoddiad a gwneud penodiadau iddynt.

6. **<u>Y Pwyllgor Ymchwilio</u>**

Ar ôl ei sefydlu, efallai y bydd angen i'r Pwyllgor hwn wedyn ystyried:-

- A oes achos i'w ateb ac os oes, y camau y dylid eu cymryd i ymchwilio i'r mater/datrys y mater. <u>Gall</u> hyn gynnwys penodi Person Annibynnol Dynodedig (PAD) yn unol â'r Rheoliadau, i gynnal adolygiad annibynnol. Gall, yn lle hynny, neu fel cam cyntaf olygu rhyw fath arall o ymchwiliad/adolygiad neu ddim camau gweithredu pellach o gwbl.

- Os penderfynir bod achos i'w ateb, <u>efallai</u> y bydd angen i'r Pwyllgor hefyd benderfynu a oes sail i wahardd swyddog statudol hyd oni fydd ymchwiliad wedi'i gynnal. Byddai unrhyw waharddiad yn gwbl ddiragfarn, ar gyflog llawn 6ac am gyfnod o hyd at ddau fis ond gallai unrhyw PAD a fyddai <u>efallai</u> yn cael ei benodi, ymestyn y cyfnod hwnnw.

7. **<u>Y Pwyllgor Disgyblu</u>**

Os bydd PAD yn cael ei benodi/ph, bydd angen iddo ef/hi gynnal ymchwiliad ac yna adrodd i'r Pwyllgor Disgyblu ynghylch a yw'r dystiolaeth yn cefnogi'r honiad/honiadau ac os ydyw, argymell unrhyw gamau disgyblu sydd, yn ei farn ef/yn ei barn hi, yn briodol. Bydd y Pwyllgor Disgyblu'n gwneud penderfyniad ar ôl dilyn y drefn ddisgyblu briodol ac ar ôl cynnal gwrandawiad disgyblu.

8. **<u>Y Cyngor Llawn</u>**

Yn ychwanegol at ei swyddogaeth o ran sefydlu Pwyllgor Ymchwilio a Phwyllgor Disgyblu, bydd y Cyngor Llawn wedyn yn gweithredu, os oes angen, fel y cyfrwng apelio mewnol ar gyfer penderfyniad y Pwyllgor Disgyblu. Ni fedr Aelodau sydd wedi bod yn rhan o gamau blaenorol y broses fod yn rhan o'r corff apelio.

**ARGYMHELLION**

1. Sefydlu Pwyllgor Ymchwilio sefydlog i weithredu'r swyddogaethau a ddisgrifir yn Rheoliad 9 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 ac fel sydd wedi eu hadlewyrchu yn y Rheolau Gweithdrefn Cyflogi Swyddogion ym Mharagraff 4.10 Cyfansoddiad y Cyngor.

2. Bydd tri Aelod ar y Panel Ymchwilio a bydd cydbwysedd gwleidyddol arno yn unol ag Adran 15 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989; a bydd un yn Aelod o'r Pwyllgor Gwaith. Awgrymir na ddylai'r Arweinydd fod yn aelod o'r panel nac ychwaith unrhyw aelodau sy'n dal y Portffolios ar gyfer y swyddogion statudol.

3. Bod y Cyngor yn dirprwyo i'r Prif Weithredwr yr awdurdod i benodi Aelodau i'r Pwyllgor Ymchwilio, wedi iddo ymgynghori gydag Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol. Yn y blynyddoedd wedyn, bydd yr Aelodau'n cael eu penodi'n flynyddol gan y Cyngor Llawn fel rhan o'r broses arferol o benodi i bwyllgorau.

4. Sefydlu Pwyllgor Disgyblu sefydlog a phenodi Aelodau i wasanaethu arno. Byddai hyn yn cydymffurfio gyda Chanllawiau'r Cyd-gyngor Cenedlaethol mewn perthynas

â Phrif Weithredwyr ac yn osgoi'r angen i'r Cyngor sefydlu Pwyllgor Disgyblu ar wahân petai angen un mewn unrhyw achos lle gwnaed honiadau yn erbyn swyddog statudol ac y mae angen rhoi sylw iddynt dan y broses hon.

5. Bydd ar y Pwyllgor Disgyblu dri o aelodau a bydd arno gydbwysedd gwleidyddol yn unol ag Adran 15 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989; a bydd un Aelod yn Aelod o'r Pwyllgor Gwaith. Argymhellir na ddylai'r Arweinydd fod yn aelod nac ychwaith unrhyw aelodau sy'n dal Portffolios y swyddogion statudol. Argymhellir ymhellach na ddylai unrhyw Aelodau o'r Pwyllgor Ymchwilio fod yn Aelodau o'r Pwyllgor Disgyblu.

6. Bod y Cyngor yn dirprwyo i'r Prif Weithredwr yr awdurdod i benodi Aelodau i'r Pwyllgor Ymchwilio, wedi iddo ymgynghori gydag Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol. Yn y blynyddoedd wedyn, bydd yr Aelodau'n cael eu penodi'n flynyddol gan y Cyngor Llawn fel rhan o'r broses arferol o benodi i bwyllgorau.

7. Bod y Cyngor yn dirprwyo i unrhyw un o'r tri swyddog statudol, mewn ymgynghoriad gyda'r Arweinydd, yr hawl i wario'r arian angenrheidiol er mwyn cyflawni'r ymrwymiad statudol/contractyddol hwn. Gall hyn gynnwys cyflogi Cyfreithwyr arbenigol allanol i gynghori ar y materion cyflogaeth a gall olygu penodi ymchwilydd/arbenigwr allanol ynghyd â threfniadau am wasanaeth interim petai swyddog yn cael ei wahardd/ei gwahardd am unrhyw gyfnod.